Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Y pymthegfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Hydref 2024

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Y pymthegfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Hydref 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Hannah Blythyn AS**
Llafur Cymru



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig

---

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Mark Drakeford AS ***
Llafur Cymru

* Roedd Mark Drakeford yn aelod o'r Pwyllgor ar y pryd ond fe esgusododd ei hun o weithgareddau'r Pwyllgor, ac felly ni chymerodd ran yn y gwaith o ystyried yr adroddiad.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 5**

**2. Ystyried y gŵyn ........ 6**

**3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor ........ 7**

**4. Materion o Egwyddor Gyffredinol ........ 10**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22.[1] Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, rhaid i'r Pwyllgor:

> *"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau...ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."*[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn")[3] ac mae'n ymwneud â chŵyn a wnaed i'r Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd").

[1] Rheolau Sefydlog
[2] Rheol Sefydlog 22.2(i)
[3] Gweithdrefn y Senedd ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd

# 2. Ystyried y gŵyn

**3.** Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn yn ymwneud ag adborth a adawyd gan Aelod ar lwyfan cyhoeddus. Roedd y gŵyn yn nodi bod yr Aelod wedi cyhoeddi gwybodaeth ffug yn cwestiynu cywirdeb a gonestrwydd y gwerthwr wrth werthu eitem i [Aelod] ar eBay.

**4.** Dywedodd yr Achwynydd ei fod wedi gwerthu dau wydr crisial Waterford i'r Aelod, a oedd wedyn yn dadlau nad oedd yr eitemau'n cyfateb i'r disgrifiad ar broffil cyhoeddus y gwerthwr heb ddefnyddio unrhyw un o'r sianeli swyddogol a ddarperir gan y llwyfan. Dywedodd yr Achwynydd fod hyn yn cwestiynu ei 'uniondeb, dibynadwyedd a gonestrwydd'.

**5.** Gwnaeth y Comisiynydd y gŵyn yn dderbyniadwy gan ei fod yn fodlon y gallai'r ymddygiad honedig fod wedi digwydd ac, o'i brofi, y gallai fod yn gyfystyr â thorri Rheol dau o'r Cod Ymddygiad.

**6.** Mae'r Comisiynydd yn nodi yn ei adroddiad:

> *"At first sight this whole matter might appear trivial. Why should a disagreement between a seller and buyer of two glasses costing £9.99 be the subject of a complaint about a Member of the Senedd? However, the matter is one of concern to the Complainant who believes that her reputation as an eBay seller may be damaged by the allegedly untruthful feedback report posted by the Member who was the buyer."*

**7.** Cyfarfu'r Pwyllgor ar 23 Medi 2024 i ystyried adroddiad y Comisiynydd a dod i'w gasgliad mewn perthynas â'r gŵyn hon.

**8.** Mae'r Pwyllgor wedi cynnwys y rhannau perthnasol o adroddiad y Comisiynydd yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau anhysbysrwydd y rhai sy'n ymwneud â'r gŵyn hon yn unol â'r weithdrefn.

**9.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i benderfyniad.

**10.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw ac i'r Achwynydd.

# 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**11.** Bu'r Pwyllgor yn trafod a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.2(i).

**12.** Wrth drafod a fu achos o dorri'r Cod, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd fel y'u nodir yn ei adroddiad.

**13.** Ni fanteisiodd yr Aelod ar y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Pwyllgor.

**14.** Nododd y Pwyllgor gais yr Achwynydd i gyfarfod ac archwilio'r gwydrau dan sylw. Cytunodd y Pwyllgor fod ganddo ddigon o dystiolaeth eisoes i wneud penderfyniad mewn perthynas â'r gŵyn hon.

**15.** Roedd canfyddiadau ffeithiol y Comisiynydd fel a ganlyn:

i. Yn dibynnu ar y dyddiad cynhyrchu, mae eitemau crisial o ansawdd cyntaf Waterford yn cael eu 'llofnodi' gydag ysgythriad naill ai o'r gair 'Waterford' neu ddelwedd o forfarch.

ii. Ar 12 Rhagfyr 2023 hysbysebodd yr Achwynydd ddau wydr ar werth ar eBay.

iii. Yn yr hysbyseb disgrifiwyd y gwydrau fel "Stunning PAIR Waterford Kylemore small liquer (sic) etc, glasses, signed and in super condition, cut glass excellent quality. The glasses are in exc. condition no signs of use, please see plenty daylight photos. Height is 4inc/10cm, width 4cm at mouth. Discontinued line."

iv. Y pris ar gyfer y pâr oedd £9.99.

v. Ar 9 Ionawr 2024 prynodd yr Aelod y gwydrau a chawsant eu dosbarthu i [Aelod] rai dyddiau'n ddiweddarach.

vi. Ar 13 Ionawr 2024 anfonodd yr Aelod neges breifat at yr Achwynydd, drwy wasanaeth negeseuon preifat Ebay, yn nodi nad oedd y gwydrau fel y'u disgrifiwyd, eu bod yn llai a heb eu llofnodi.

vii. Yn y negeseuon preifat dros y dyddiau dilynol haerodd yr Achwynydd fod y gwydrau fel y'u disgrifiwyd a gofynnodd am dystiolaeth gan yr Aelod nad oeddent;

viii. Nid ymatebodd yr Aelod i'r negeseuon hyn ac ar neu o gwmpas 21 Ionawr 2024 cyhoeddodd yr adborth a ganlyn ar eBay “Wrongly described and they are not signed. Will not deal with this E bay (sic) seller again.”

ix. Yr un diwrnod cyflwynodd yr Achwynydd gais am adolygiad o adborth i eBay yn nodi “Glasses ARE the size stated and ARE signed.”

x. Dewisodd yr Aelod beidio ag ymateb i'r cais hwnnw i adolygu'r adborth.

xi. Cynigiodd yr Achwynydd i ddarparu gwydrau newydd ac, er nad oedd yr Aelod wedi gofyn, gadawodd ddau wydr newydd yn y swyddfa etholaethol. Roedd y gwydrau newydd hyn wedi'u llofnodi. Ni dderbyniodd yr Aelod y gwydrau newydd a chymerodd yr Achwynwydd hwy yn ôl.

xii. Ar 4 Mawrth 2024 dywedodd yr Aelod wrth yr Achwynydd fod [yr Aelod] wedi torri un o'r gwydrau ar ddamwain.

xiii. Ar 17 Ebrill 2024 archwiliwyd y gwydr a oedd yn weddill gan fy Ymchwilydd a'm Rheolwr Prosiect ac ni allai ddod o hyd i unrhyw olion o unrhyw ysgythriad neu farc.

xiv. Gwrthododd yr Achwynydd dderbyn canlyniad yr archwiliad hwnnw.

xv. Yn ystod galwad ffôn gyda mi ar 8 Mai 2024, dywedodd yr Achwynydd fod y gwydrau'n llai na'r gwydrau sieri yr oedd [yr Aelod] wedi disgwyl ei gael.

xvi. Ar 20 Mehefin 2024 archwiliwyd y gwydr gan arbenigwr annibynnol a ddewiswyd gennyf i ond a argymhellwyd wedyn gan yr Achwynydd. Yn ei adroddiad, canfu fod y gwydr - yn wydr gwirod crisial, wedi'i dorri mewn patrwm 'Kylemore', ar goesyn balwster toriad chweochrog a gwaelod crwn wedi'i dorri â seren 16 pwynt;• roedd yn 9.8cm o uchder a 4cm mewn diamedr;• nid oedd dim marc morfarch na 'Waterford' gweladwy; ac yn ôl pwysau tebygolrwydd, roedd wedi'i gynhyrchu gan Waterford ac nid oedd yn ffug.

xvii. Roedd yr adroddiad arolygu hwnnw'n gywir.

**16.** Canfu'r Comisiynydd ar sail y ffeithiau a sefydlwyd, mewn perthynas â rheol dau ei fod yn fodlon:

> *"… even if, as the Complainant asserts, the height of the glass was within tolerance and there was some vague mark which could have been the remnants of a Waterford Crystal mark, it would still be my opinion that there had been no breach of Rule 2. I am satisfied that the Member's feedback report, even if it was factually incorrect, was honestly given. There is no evidence of any deceit, fraud or moral turpitude. Whilst it may, on the Complainant's account, have been imprecise and inaccurate it was not untruthful."*

Ar ôl ystyried y wybodaeth a oedd ar gael a'r holl sylwadau, cytunodd y Pwyllgor â chasgliad y Comisiynydd nad oedd y Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri.

# 4. Materion o Egwyddor Gyffredinol

**17.** Mae'r mater yn yr adroddiad hwn yn nodyn da i atgoffa bod y Cod Ymddygiad yn gymwys i Aelodau sy'n dal swydd gyhoeddus Aelod o'r Senedd bob amser, gan gynnwys bywydau personol a phreifat yr Aelodau.

**18.** Mae hyn yn golygu ei bod yn ddyletswydd ar yr Aelodau i fod yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad yn eu holl ryngweithio.